Bwletin Awdurdod S4C
Cyfarfod 344 – 21 Ebrill 2011
S4C, Caerdydd

Mae'r bwletin hwn yn adrodd ar gyfarfod yr Awdurdod a gynhaliwyd ar 21 Ebrill 2011.

1. Materion yn codi o gofnodion cyfarfod 343

Derbyniwyd cofnodion cyfarfod 343.

2. Adroddiad y Cadeirydd

Cyflwynodd y Cadeirydd ei adroddiad.

Noson Gwylwyr ym Mhorthmadog:

Cafwyd noson lwyddiannus. Roedd ymgyrch Calon Cenedl wedi bod yn llwyddiant ac yn sicr wedi cael effaith yn yr ardal. Roedd hyn i'w weld yn y nifer a ddaeth i'r wahanol ddigwyddiadau.

3. Adroddiad y Prif Weithredwr

Cyflwynodd y Prif Weithredwr ei adroddiad.

Soniodd am lwyddiannau S4C yn yr □yl Geltaidd ac am ei drafodaethau â TG4 a BBC Alba.

Rhoddodd ddiweddariad ar gyfarfodydd ADdCCh/BBC. Bwriedir ail ymgynnull gyda'r cynrychiolwyr newydd ar 1af Mehefin. Bydd swyddogion S4C yn paratoi papur newydd iddynt ar drefniadau cydweithio posibl.

4. Adroddiad o'r Fforwm Cyfryngau Newydd

Rhoddodd DJ adborth o'r cyfarfod diweddar pan gafwyd cyflwyniad gan David Gauntlett o Brifysgol Westminster. Mae'r gwaith ar yr adroddiad yn mynd rhagddo. Bydd ail adroddiad i ddilyn ar ddiwedd y flwyddyn.

5. Adroddiad ac Argymhellion y Pwyllgor Archwilio a Rheoli Risg

Derbyniwyd Adroddiad Blynyddol yr Archwilwyr Mewnol 2010

Cafwyd trafodaeth yn y Pwyllgor ar Ddatganiad Ariannol 2010. Cyflwynwyd y Datganiad i'r Awdurdod i'w gymeradwyo. Gyda rhai newidiadau cymeradwywyd y Datganiad.

6. Adroddiad ac Argymhellion y Pwyllgor Cynnwys

Rhoddodd CE ddiweddariad i'r Aelodau. Cynhelir cyfarfod arall o'r pwyllgor ar ddechrau Mai.

4. Materion Eraill
Yn ogystal, trafodwyd/nodwyd y materion canlynol:

- Adroddiad Ymchwil
- Adroddiad Gwifren
- Materion Personél
- Adroddiad o'r Bwrdd Masnachol
- Adroddiad y Cyfarwyddwr Comisiynu
- Adroddiad ar fonitro Ch1 Cynllun Corfforaethol 2011